

# Cross-Party Group on Lung Health

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd yr Ysgyfaint

Cofnodion 10 Mai 2022

### Yn bresennol:

#### **Aelodau o'r Senedd**

Mike Hedges AS (gyda chefnogaeth Ryland Doyle)

David Rees AS

John Griffiths AS (wedi'i gynrychioli gan Andrew Betteridge)

Jane Dodds AS (wedi'i chynrychioli gan Rhys Taylor)

Carolyn Thomas AS (wedi'i chynrychioli gan Dan Rose)

Rhun ap Iorwerth AS (wedi'i gynrychioli gan Heledd Roberts)

Huw Irranca-Davies AS (wedi'i gynrychioli gan Harry Davies)

#### **Heb fod yn Aelodau o'r Senedd**

Joseph Carter - Asthma UK a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint Cymru

Stephanie Woodland - Asthma UK a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint Cymru

Andrew Cumella

Alice Spencer

Anthony Davies

Brian Forbes

Hannah Bray

Chrissie Gallimore

Claire Hurlin

Dave Edwards

Deborah Fossett

Fiona Jenkins

Gareth Williams

Jane Douglas

Jeannie Wyatt-Williams

Jerome Donagh

Joanne Allen

John Morgan

Jonathan Morgan

Katie Pink

Kathryn Singh

Kimberley Lewis

Melanie Barker

Neil Harris

Pam Lloyd

Ruth Evans

Sadie Beard

Sarah Cadell

Val Maidment

## Ymddiheuriadau

Natasha Asghar AS  
Hefin David AS  
Jane Dodds AS  
Tom Giffard AS  
Llŷr Gruffydd AS  
John Griffiths AS  
Sian Gwenllian AS  
Altaf Hussain AS  
Delyth Jewell AS  
Samuel Kurtz AS  
Rhys ab Owen AS  
Jack Sargeant AS  
Ken Skates AS  
Buffy Williams AS  
Sioned Williams AS

### 1. Mike Hedges AS - Croeso a chyflwyniadau

Dechreuodd **Mike Hedges AS** y cyfarfod a diolch i bawb am ddod. Eglurodd nad oedd John Griffiths AS yn gallu bod yn bresennol felly roedd wedi gofyn iddo gymryd ei le. Gofynnodd a oedd unrhyw Aelod o'r Senedd neu staff cymorth am gyflwyno eu hunain. Cyflwynodd **David Rees AS** cyflwynodd ei hun ac fe gyflwynodd staff cymorth a oedd yn cynrychioli'r Aelodau eraill o'r Senedd eu hunain.

Eglurodd **Mike Hedges AS** fod dau gyflwynydd heddiw, **Andrew Cumella** a **Dr Katie Pink**.

Anogodd bobl i ofyn unrhyw gwestiynau oedd ganddynt drwy ddefnyddio'r cyfleuster sgwrs.

### 2. Mike Hedges AS - Cofnodion y cyfarfod diweddfaf

Ni ellid cymeradwyo'r cofnodion gan nad oedd yr un o'r Aelodau o'r Senedd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf.

**Cam gweithredu** - cofnodion i'w cymeradwyo y tu allan i'r cyfarfod.

\* Yn dilyn y cyfarfod, cymeradwywyd cofnodion mis Chwefror gan John Griffiths AS a Darren Millar AS

### 3. Joseph Carter - Materion sy'n codi

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol yn y cyfarfod blaenorol:

- Joseph Carter i ddrafftio llythyr i John Griffiths AS a'i anfon at y Gweinidog
  - Wedi'i gwblhau - dim ymateb eto

### 4. Andrew Cumella, Asthma + Lung UK Cymru - Canlyniadau'r arolwg asthma blynyddol

Dyma 9fed rhifyn yr Arolwg Asthma Blynyddol, a gynhaliwyd yn flaenorol gan Asthma UK.

Mae Asthma + Lung UK wedi gofyn rhai cwestiynau'n gyson ar draws yr arolygon hyn, ac rydym yn ychwanegu rhai newydd bob blwyddyn i olrhain pa ofal y mae pobl ag asthma yn ei gael, a'r modd y mae asthma yn effeithio ar eu bywydau.

Yn 2021, roedd 8,300 o ymatebwyr yn y DU, gan gynnwys 494 yng Nghymru.

Roedd yr arolwg yn olrhain canlyniadau allweddol ar gyfer pobl ag asthma, gan gynnwys y mesur gofal sylfaenol:

- Cael adolygiad asthma blynyddol (naill ai mewn person neu trwy ddull rhithwir)
- Cael gwiriad techneg anadlydd
- Cael cynllun gweithredu asthma ysgrifenedig

Yn ôl yr arolwg, er bod lefelau gofal sylfaenol yn gostwng ym mhob un o'r 4 gwlad, mae'n yn waeth yng Nghymru gyda dim ond 26% o bobl wedi cael pob agwedd - yr isaf ers 2014. Mae'r dadansoddiad fesul Bwrdd Iechyd yn dangos mai Powys yw'r gorau gyda 42.9% o bobl yn ei gael, a Bae Abertawe sydd waethaf, ar 18.9%.

Pan ofynnwyd *a ydych chi'n meddwl bod eich gofal asthma yn gwaethygu*, roedd gan Gymru'r lefelau uchaf o bobl yn dweud ei fod yn gwaethygu a'r lefelau isaf o bobl yn dweud ei fod yn gwella - 45.9% yn dweud ei fod yn gwaethygu a 10% yn dweud ei fod yn gwella .

Dangosodd yr arolwg mai pobl sy'n byw yn y rhannau mwyaf llygredig o Gymru oedd â'r asthma mwyaf afreolus, tra bod 73.6% yng Nghymru yn meddwl bod llygredd aer yn cael effaith ar eu hiechyd, a 67.2% yng Nghymru yn poeni am effaith newid hinsawdd ar eu hasthma.

Daeth **Andrew Cumella** â'i gyflwyniad i ben drwy alw am y canlynol:

- Cyhoeddi Datganiad newydd ar Ansawdd Iechyd yr Ysgyfaint gyda chynllun ar gyfer ei roi ar waith.
- Ymdrech o'r newydd i wella gofal asthma sylfaenol.
- Targedu'n arbennig y rheini ag asthma sydd wedi'i reoli'n wael.
- Lleihau'r ddibyniaeth ar anadlyddion lliniaru (*reliever inhalers*).

- Diagnosis cyflymach.
- Cyflwyno ap asthma GIG Cymru a'i farchnata.
- Iechyd yr ysgyfaint i fod yn flaenoriaeth o ran anghydraddoldebau iechyd.

Diolchodd **Mike Hedges AS** i **Andrew** am ei gyflwyniad a gwahodd cwestiynau.

Siaradodd **Val Maidment** am ei phrofiad o gael asthma ers dros 40 mlynedd ond ni chafodd adolygiad asthma cywir tan 2020. Gofynnodd am gynllun gweithredu asthma a dywedwyd wrthi eu bod 'yn y cwpwrdd' ac bod y nyrs wedi synnu ei bod hi eisiau un.

Canmolodd **Val** ap asthma GIG Cymru am reoli ei hasthma, ond dywedodd iddi ddysgu amdano drwy Asthma + Lung UK yn hytrach na thrwy'r GIG,

Gofynnodd **Fiona Jenkins** a allai Asthma + Lung UK Cymru gynnig unrhyw gyngor ynghylch gwerthuso effaith yr apiau asthma neu asthma mewn plant.

Dywedodd **Andrew** fod Asthma + Lung UK Cymru yn gwneud llawer o waith gydag ymchwilwyr i helpu gyda gwerthusiadau felly gofynnodd a allai fod yn rhywbeth y gallent helpu yn ei gylch.

Gofynnodd **Mike Hedges AS** a allai awdurdodau lleol fod yn gwneud mwy i hyrwyddo'r ap asthma rieni drwy ysgolion. Cytunodd Andrew a Fiona y byddai hynny'n syniad da iawn.

**Cam gweithredu - Asthma + Lung UK Cymru** i ystyried sut y gallen nhw helpu i werthuso'r apiau.

## 5. **Dr Katie Pink** - Asthma yng Nghymru

Roedd ei chyflwyniad yn canolbwyntio ar y modd yr ydym yn safoni triniaeth a gofal asthma ledled Cymru.

Prif amcanion

- Pob claf ag asthma i gael tystiolaeth glir o'r clefyd.
- Pob claf ag asthma i gael cynllun gweithredu asthma personol.
- Pobl ag asthma difrifol i gael mynediad at therapïau asthma mwy newydd ac arbenigol.
- Lleihau effaith amgylcheddol rhoi anadlyddion.

Y model Cymreig

- Canllawiau cenedlaethol.
- Safonau ac addysg.
- Prosiectau gwella ansawdd.
- Apiau hunanreoli cleifion.

Yr hÿb asthma

- Yn hygyrch i oedolion ag asthma yng Nghymru.
- Gwella gwerthoedd a thechnegau hunanreoli clefydau cronig.
- Cefnogi cleifion i aros yn iach gan ddefnyddio gwiriwr asthma misol.
- Grymuso cleifion i hybu safonau gofal yn ystod unrhyw ryngweithiadau gofal iechyd sydd ganddynt.

#### Pecyn cymorth anadlol GIG Cymru.

- Pecyn cymorth ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd am ddysgu mwy am ddiagnosis a rheoli asthma.
- Canolbwyntio ar gael pawb i wybod, dysgu, a gwneud y pethau sy'n wirioneddol bwysig.
- Ei gyd-gynhyrchu gan arbenigwyr lleol a rhyngwladol.
- Ei gyrchu'n ddyddiol gan gannoedd o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ledled Cymru.
- Cofrestru am ddim i Llwyfan Sefydliad Gwyddoniaeth Glinigol a Thechnoleg (ICST) Cymru Gyfan [allwales.icst.org.uk](http://allwales.icst.org.uk)

#### Agenda Gwyrdd GIG Cymru

- Canllawiau wedi'u diweddarau i ddangos pa anadlyddion sydd â photensial uwch ac is o ran cynhesu byd-eang.
- Ymgyrch sy'n wynebu cleifion - pa mor ecogyfeillgar yw eich anadlyddion?
- Digwyddiad i weithwyr iechyd proffesiynol er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd drwy ragnodi anadlyddion cynaliadwy.

#### Therapi asthma biolegol

- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu toreth o therapiau newydd ar gyfer rheoli asthma difrifol.
- Yn cael eu disgrifio'n aml fel 'arbed steroid', gall y cyffuriau hyn wella'r broses o reoli asthma yn sylweddol, lleihau gwaethygiadau a derbyniadau i'r ysbyty, a gwella ansawdd bywyd.
- Rhaglen ragnodi ar sail gwerth.
- Annog atgyfeiriadau i ofal eilaidd ar gyfer asthma difrifol a amheuir.
- Pob bwrdd iechyd i ariannu gwasanaeth asthma difrifol, gan gynnwys nyrs asthma bwrpasol
- .

#### Pa gymorth sydd ei angen arnom?

- Mwy o ymwybyddiaeth o'r pecyn cymorth asthma, gydag aliniad a chymeradwyaeth o fewn eich maes dylanwad.
- Hwyluso'r broses o rannu adnoddau corfforol a digidol, gan gynnwys canllawiau rhagnodi cenedlaethol, taflenni, posteri, a thiworialau, a gefnogir gan y Sefydliad Gwyddoniaeth Glinigol a Thechnoleg.
- Defnyddio pob sianel gyfathrebu sydd ar gael i gleifion anadlol yng Nghymru.
- Annog pob bwrdd iechyd i sefydlu gwasanaeth asthma difrifol.

Diolchodd **Mike Hedges AS** i **Dr Katie Pink** am ei chyflwyniad a gwahodd cwestiynau. Ef ei hun oedd y cyntaf i ofyn cwestiwn, sef a oes gan bob bwrdd iechyd nyrsys asthma?

Dyweddod **Dr Pink** fod gan bob bwrdd iechyd nyrsys anadlol arbenigol penodol gyda rhai o'r rolau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar asthma.

Gofynnodd **Fiona Jenkins** beth arall sydd angen ei wneud i gyfathrebu ynghylch yr apiau a'r llwybrau.

Dyweddod **Dr Pink** fod angen i ni wneud llawer mwy. Ar wahân i'r cyfathrebu torfol trwy e-bost, ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy lythyr, mae hi bellach yn gweithio gyda nifer fach o bractisau meddygon teulu brwdfrydig. Yr her yw ymgysylltu â'r meddygon teulu sy'n ystyried clefydau anadlol yn llai o flaenoriaeth.

Gofynnodd **Dr Jerome Donagh** oedd **Dr Pink** gwybod pryd y bydd y canllawiau asthma pediatrig newydd yn cael eu rhyddhau.

Ymatebodd **Dr Pink** gan ddweud nad oedd hi'n siŵr pryd yn union, ond fe'u disgwylir yn fuan.

Gofynnodd **Dr Donagh** am ddyfodol diagnosteg anadlol gyda gofal sylfaenol yn methu â chynnal sbirometreg yn ddiogel.

Ymatebodd **Fiona Jenkins** gan ddweud bod y rhan fwyaf o fyrddau iechyd, erbyn hyn, yn sefydlu canolfannau diagnostig cymunedol gan gynnwys sbirometreg.

Dyweddod **Dr Donagh** fod gwaith wedi dechrau yng Nghwm Taf i ddatblygu hybiau cymunedol, ac yna wedi dod i ben.

Cadwyd sylwadau gan **Andrew Cumella** ar yr agenda datgarboneiddio. Dyweddod nad yw pobl ag asthma - yn gyffredinol - yn gwybod am botensial cynhesu byd-eang eu hanadlyddion, ond mae ein hymchwil yn dangos eu bod yn fodlon newid, yn gyffredinol.

Dyweddod **Dr Pink** fod angen nyrs arbenigol ganolraddol fyddai'n gweithio ym maes gofal sylfaenol ac yn ddelfrydol, fyddai'n rheoli'r rhyngwyneb â gofal eilaidd, yn enwedig ar gyfer pobl sy'n byw ag asthma difrifol.

Dyweddod **Chrissie Gallimore** fod gan gwmnïau ABPI lawer o adnoddau i gynorthwyo timau anadlol ledled Cymru i weithredu'r canllawiau asthma newydd, a gwella gofal asthma.

Fe wnaeth **Claire Hurlin** rannu model y canolbwynt diagnostig symudol y mae Hywel Dda wedi bod yn ei dreialu.

Gofynnodd **Anthony Davies** a oedd yr apiau a'r llwybrau anadlyddion wedi'u cyflwyno i Bwyllgorau Meddygol Lleol ledled Cymru. Nid oedd **Dr Pink** yn gwybod.

**Cam gweithredu** - Anogir pawb i feddwl am ffyrdd o hyrwyddo'r defnydd o'r apiau Asthma ac Asthma i Rien

## 6. **Joseph Carter** - y cyfarfod nesaf a'r gwaith sydd i ddod

Gofynnodd **Mike Hedges AS** i **Joseph Carter** i siarad am gyfarfodydd yn y dyfodol. Diolchodd **Joseph** i bawb am eu cyfraniadau ac am neilltuo'r amser i fod yn bresennol, a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod nesaf ar 13 Medi ac yna ar 22 Tachwedd.

## 7. **Mike Hedges AS** - Unrhyw fater arall

Gofynnodd **Mike Hedges AS** a oedd gan unrhyw un unrhyw fater arall. Nid oedd unrhyw fater arall felly diolchodd wedyn, i bawb am fod yn bresennol a daeth â'r cyfarfod i ben.